Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl 2019

Roedd y beirniaid wedi cyrraedd, y bwyd wedi ei baratoi, y cwpanau wedi eu sgleinio a'r cadeiriau wedi eu gosod ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl 2019, arhosem yn eiddgar i'r cystadleuwyr a'r gynulleidfa i gyrraedd . . .

Braf yw gallu dweud bod cystadleuwyr brwd a chyffrous wedi cyrraedd yr eisteddfod i gystadlu yn y cystadlaethau lleol. Mawr yw ein diolch i staff yr ysgolion lleol, Ysgol Llannon, Ysgol Llechyfedach ac Ysgol Y Tymbl am fod mor barod i baratoi plant eu hysgolion ar gyfer yr eisteddfod. Cafwyd gwledd o gystadlu gyda'r gystadleuaeth llefaru blynyddoedd pump a chwech yn uchafbwynt ar y cyfan efo'r beirniad o'r farn y gellid fod wedi rhoi'r wobr gyntaf i chwech o'r rhai a fu'n cystadlu. Ar ôl tipyn o grafu pen, daeth Geraint Hughes i'r casgliad mai Llew Roderick Lewis oedd yn dod i'r brig. Llongyfarchiadau mawr i Taliesin Bryant o Ysgol Llannon a enillodd y cwpan ar gyfer y cystadleuydd mwyaf addawol yn y cystadlaethau lleol.

Ein beirniaid eleni oedd Mrs Sue Hughes a'i phriod, Mr Geraint Hughes a phleser pur oedd eu croesawu i'r eisteddfod. Bu Geraint yn gefnogwr brwd o'r eisteddfod pan oedd yn Swyddog Cyswllt y De gyda Chymdeithas Eisteddfodau Cymru, roedd wastad ar ben arall y ffôn yn barod i helpu a rhoi cyngor. Diolch i'r ddau am feirniadu mor hwylus a thrylwyr gydol yr eisteddfod. Diolch hefyd i'n beirniaid eraill a bu wrthi'n gweithio'n ddyfal cyn yr eisteddfod, Mrs Lois Slaymaker-Jones yn beirniadu'r gwaith llenyddiaeth a Mr Jonathan Morgan am feirniadu'r emyn don. Tra bu Miss Siân Elfyn Jones yn beirniadu gwaith llenyddiaeth plant yr ysgolion cynradd a Mrs Kathryn Penhale yn beirniadu eu gwaith celf.

Ychydig yn hwyrach na'r disgwyl, oherwydd y cystadlu brwd yn yr adran leol, dechreuwyd sesiwn y prynhawn gydag adran agored i blant cynradd. Teithiodd y rhai a fu'n cystadlu yn yr adran hon o bell ac agos. Diddanwyd pawb gan eu doniau, yn llefaru, yn canu ac yn canu'r piano.

Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Abigail Sara o Gaerdydd, un sydd wedi cystadlu a beirniadu yn eisteddfodau lleol a chenedlaethol ledled y wlad. Soniwyd yn ei haraith sut y dechreuodd gystadlu oherwydd Eisteddfod Y Tymbl! Oherwydd cysylltiadau teuluol, yn dair a hanner mlwydd oed mynychodd eisteddfod am y tro cyntaf a honno yn Eisteddfod Y Tymbl gan gael ei swyno yn gwrando ar y cystadlu. O fewn wythnosau roedd hi'n cystadlu yn ei heisteddfod gyntaf yng Ngorseinon! Hyfryd oedd ei chroesawu yn ôl i'r eisteddfod.

Deg cerdd ar y testun 'Croesi'r Ffin' a ddaeth i law ar gyfer cystadleuaeth y gadair a phlesiwyd y beirniad, Mrs Lois Slaymaker-Jones gan safon y gwaith. I'r brig, daeth Iwan Thomas o Giliau Aeron, Llambed a oedd yn cystadlu yn yr eisteddfod am y tro cyntaf, er ei fod yn hen gyfarwydd â'r pentref gan ei fod wedi chwarae rygbi i Aberaeron yn erbyn tîm y pentref.

Ail-gydiwyd ar y cystadlu ar ôl y cadeirio gyda phlant uwchradd yn ymrafael am nifer o wobrau. Roedd rhai o enwau'r cystadleuwyr yn gyfarwydd i ni gan eu bod wedi cystadlu yn yr adran leol pan yn ddisgyblion cynradd. Braf oedd eu croesawu yn ôl i gystadlu. Cipiwyd y cwpan am y cystadleuydd ifanc mwyaf addawol yn yr adran gerdd gan Martha Harries o Landeilo. Prin oedd y gynulleidfa erbyn yr hwyr sydd yn drueni oherwydd roedd y cystadlu o safon uchel a'r eisteddfod yn ymdebygu i gyngerdd yn hytrach nag i eisteddfod. Byddai'n braf y flwyddyn nesaf i weld y neuadd yn llawn ar gyfer cystadlu'r nos, mae'n gyngerdd a hanner ac yn un rhad am £3! Eisteddfod gorawl bu'r eisteddfod ar un adeg ac eleni am y tro cyntaf ers hydoedd roedd cystadleuaeth ar gyfer corau yn y rhaglen. Côr Seingar a enillodd cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru a phleser o'r mwyaf oedd clywed seiniau swynol côr yn llanw'r neuadd unwaith eto.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD Y TYMBL 2019

CYSTADLAETHAU LLEOL

Unawd canu Bl. 3 a 4
1. Taliesin, Ysgol Llannon 2. Cadi, Ysgol Llannon 3. Joseph a Jack, Ysgol Llannon ac Ysgol Llechyfedach

Llefaru Bl. 3 a 4
1. Taliesin, Ysgol Llannon 2. Marged-Alys, Ysgol Llechyfedach 3. Cadi, Ysgol Llannon

Unawd canu bl. 2 a than hynny
1. Non , Ysgol Llannon 2. Finley, Ysgol Llannon 3. Ffion ac Alffi, Ysgol Llannon

Llefaru Bl. 2 a than hynny
1. Macsen, Ysgol Llannon 2. Ffion, Ysgol Llannon 3. Branwen ac Alaw, Ysgol Llannon ac Ysgol Y Tymbl

Unwad canu Bl. 5 a 6
1. Cari, Ysgol Llanddarog 2. Efa, Ysgol Llannon 3. Emily, Ysgol Y Tymbl

Llefaru Bl. 5 a 6
1. Llew, Ysgol Llannon 2. Lewis, Ysgol Llannon 3. Aimee, Ysgol Llannon

Cystadleuydd Mwyaf Addawol - Taliesin, Ysgol Llannon

CYSTADLAETHAU AGORED

Unawd dan 6 oed
1. Nanw Melangell Griffith-Jones, Cwrtnewydd

Llefaru dan 6 oed
1. Nanw Melangell Griffith-Jones, Cwrtnewydd 2. Lili Haf Saunders, Cefneithin

Unawd 6-8 oed
1. Iwan Marc Thomas , Pontarddulais 2. Awel Grug Lewis, Rhydaman 3. Celyn Fflur Davies, Llandyfyriog
3. Delyn Aur, Cellan

Llefaru 6-8 oed
1. Delyn Aur, Cellan 2. Celyn Fflur Davies, Llandyfyriog 3. Awel Grug Lewis, Rhydaman
3. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais

Unawd 8-10 oed
1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 2. Taliesin Bryant, Llannon

Llefaru 8-10 oed
1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 2. Zakia Johnson, Rhydaman 3. Taliesin Bryant, Llannon

Unawd 10-12 oed
1. Beca Elan, Cellan 2. Ffion Rees, Capel Seion 3. Cari Seymour, Drefach 3. Seren John Jones, Cross Hands

Llefaru 10-12 oed
1. Llew Roderick Lewis, Cross Hands 2. Beca Elen Curry, Capel Dewi 3. Beca Elan, Cellan

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd
1. Beca Elen Curry, Capel Dewi 2. Zekia Johnson, Rhydaman 3. Trystan Bryn Evans, Pumsaint

Cân werin dan 12 oed
1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 2. Awel Lewis, Rhydaman

Canu emyn dan 12 oed
1. Trystan Bryn Evans, Pumsaint 2. Beca Elan, Cellan 3. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais

Unawd 12 i 16 oed
1. Efa Angharad, Gorslas 2. Seren Weston, Llannon 3. Betsan Gwawr Lewis, Gorslas

Llefaru 12 i 16 oed
1. Seren Weston, Llannon 2. Angharad Fflur Scourfield, Gorslas 3. Betsan Gwawr Lewis, Gorslas

Cân werin 12 i 16 oed
1. Seren Weston, Llannon 2. Efa Angharad, Gorslas 2. Betsan Gwawr Lewis, Gorslas

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd 18 oed a than hynny
1. Luke Rees, Pontantwn

Unawd canu 16-21 oed
1. Martha Harries, Llandeilo 2. Luke Rees, Pontantwn 2. Celt Llewelyn-Jones, Drefach

Cystadleuydd ifanc mwyaf addawol yn yr adran gerdd - Martha Harries, Llandeilo

Cân Werin - agored
1. Martha Harries, Llandeilo 2. Efa Angharad, Gorslas 2. Ann Watkins, Craig y Nos

Unawd allan o Sioe Gerdd
1. Efa Angharad, Gorslas 2. Martha Harries, Llandeilo 3. Carwen George, Talyllychau
4. Celt Llewelyn-Jones, Drefach 4. Dylan Heddwyn, Porthyrhyd

Llefaru darn o'r ysgrythur
1. Ann Watkins, Craig y Nos

'Sgen Ti Dalent
1. Luke Rees, Pontantwn

Canu Emyn: dan 60 oed
1. Carys Richards, Llandeilo 2. Celt Llewelyn-Jones, Drefach 2. Efa Angharad, Gorslas

Her Llefaru
1. Ann Watkins, Craig y Nos

Canu Emyn: dros 60 oed
1. Ann Watkins, Craig y Nos 2. Joyce Williams, Blaenau

Cenwch im yr Hen Ganiadau
1.John Davies,Llandybie 2.Helen Pugh,Llandeilo 3.Gerwyn Rhys,Porthyrhyd 4.Dylan Heddwyn,Porthyrhyd

Her Unawd
1.John Davies,Llandybie 2.Gerwyn Rhys,Porthyrhyd 3.Helen Pugh,Llandeilo 3.Luke Rees,Pontantwn
4.Joyce Williams,Blaenau

Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru – Côr Seingar

Canlyniadau Gwaith Llenyddiaeth

Y Gadair - Croesi'r Ffin

Iwan Thomas, Ciliau Aeron, Llambed

Telyneg - Negesydd
1.John Meurig Edwards, Aberhonddu 2.Hannah M. Roberts, Caerdydd 3. J. Richard Williams, Llangefni

Englyn Ysgafn - Pawen Lawen
1. Megan 2. Glyn Jones, Dinbych 3. Glyn Jones, Dinbych

Ysgrif neu Stori - Y Rhybudd
1. John Meurig Edwards, Aberhonddu 2. Eirlys W. Tomos, Rhuthun 3. Megan Richards, Aberaeron

Brawddeg - Maes y Felin
1. Eirlys W Tomos 2. Sian Lewis, Rhydaman 3. Glyn Jones, Dinbych

Limrig - Wrth wrando bob dydd ar y radio
1. Megan 2. John Meurig Edwards, Aberhonddu 3. Mary B. Morgan, Llanrhystud

Cyfansoddi Emyn Dôn
1. Bryn Thomas Jones, Cricieth 2. Dr. Godfrey Williams, Pontcysyllte 3. Eilyr M Thomas, Clunderwen

Canlyniadau Cystadlaethau I Blant Yr Ysgolion Lleol

Barddoniaeth Blynyddoedd 3 a 4 – Yr Haf
1. Gwenan, Ysgol Llechyfedach 2. Kenzie, Ysgol Llannon 3. Mared, Ysgol Llechyfedach

Barddoniaeth Blynyddoedd 5 a 6 - Gwyliau

1. Elise, Ysgol Y Tymbl 2. Celyn, Ysgol Cross Hands 3. Isabel, Ysgol Y Tymbl

Rhyddiaith Blynyddoedd 3 a 4 – Fy Ngwyliau Gorau Erioed

1. Alix, Ysgol Llechyfedach 2. Taliesin, Ysgol Llannon 3. Lili, Ysgol Llannon

Rhyddiaith Blynyddoedd 5 a 6 – Antur Môr Ladron

1. Llio, Ysgol Llannon 2. Morgan, Ysgol Cross Hands 3. Aled, Ysgol Llechyfedach

Celf Derbyn – O Dan Y Môr

1. Lewis, Ysgol Cefneithin 2. Jess, Ysgol Y Tymbl 3. Griff, Ysgol Llechyfedach

Celf Blynyddoedd 1 a 2 - O Dan Y Môr

1. Mia, Ysgol Llechyfedach 2. Maia, Ysgol Gorslas 3. Oscar, Ysgol Llechyfedach

Celf Blynyddoedd 3 a 4 - Ar Lan Y Môr

1. Heidi, Ysgol Gorslas 2. Ella, Ysgol Llechyfedach 3. Brennan, Ysgol Penygroes

Celf Blynyddoedd 5 a 6 - Gwyliau

1. Lawrence, Ysgol Y Tymbl 2. Hawen, Ysgol Gorslas 3. Mair, Ysgol Cefneithin 3. Gracie, Ysgol Cefneithin

Llawysgrifen Blynyddoedd 1 a 2

1. Emelia, Ysgol Gorslas 2. Alys, Ysgol Llannon 3. Amelia, Ysgol Penygroes

Llawysgrifen Blynyddoedd 3 a 4

1. Libby, Ysgol Cefneithin 2. Bonnie, Ysgol Gorslas 3. Isabella, Ysgol Llannon

Llawysgrifen Blynyddoedd 5 a 6

1. Amy, Ysgol Cross Hands 2. Alys, Ysgol Llannon 3. Betsan Yip, Ysgol Llannon